**Rhif: WG33501**

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymghynghori

# A470 Pont Caersws – Gwelliannau diogelwch cerddwyr

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 08, 2017
Camau angenrheidiol: Ymatebion erbyn Ionawr 31, 2018

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Crown Copyright

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, ar ran Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn ymchwilio i opsiynau i ddatrys pryderon diogelwch cerddwyr sydd yn croesi'r bont ar gefnffordd yr A470 ym mhentref Caersws.<br><br>Rydym yn gofyn am eich barn ar y treial rheoli traffig ac unrhyw opsiynau gwella sydd yn bosibl. |
| **Sut i Ymateb** | Cwblhau a dychwelyd 'ffurflen ymateb yr holiadur' i'r cyfeiriad isod cyn Ionawr 31, 2018 os gwelwch yn dda. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Mae'r ddogfen hon ar gael ar:<br>https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/a470-pont-caersws-gwelliannau-diogelwch-cerddwyr |
| **Manylion Cyswllt** | Am ragor o wybodaeth:<br><br>E-bost: YmgynghoriadCaersws@gwynedd.llyw.cymru<br>Gyda '**Ymgynghoriad Caersws**' yn y teitl os gwelwch yn dda<br><br>Post:<br>RHADBOST<br>Llywodraeth Cymru<br>Sarn Mynach<br>Cyffordd Llandudno<br>Conwy<br>LL31 9RZ |
| **Diogelu Data** | Sut bydd y farn a'r gwybodaeth a roddwch i ni yn cael ei ddefnyddio.<br><br>Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n delio a'r materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi |

crynodeb o’r ymatebion i’r ddogfen hon. Mae’n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi’r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda’r ymateb. Mae hynny’n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi’i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i’ch enw a’ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, gadwech i ni wybod yn ysgrifenedig wrth yrru eich ymateb os gwelwch yn dda. Byddwn wedyn yn cuddio’ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i’r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gadwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid i ni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn i ni beidio â chyhoeddi ei enw a’i gyfeiriad, bydd hynny’n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â’u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â’r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu’r wybodaeth.

**Cyflwyniad**

Mae Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, ar ran Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn ymchwilio i opsiynau i ddatrys pryderon diogelwch cerddwyr sydd yn croesi'r bont ar gefnffordd yr A470 ym mhentref Caersws.


Yr opsiynau sydd yn cael eu hystyried ar hyn o bryd yw:

- rhoi arwyddion ychwanegol (rhybudd cerddwyr) a marciau ffordd (ARAF/SLOW)
- arwyddion rheoli traffig parhaol, lôn traffig sengl gyda llwybr troed ar y bont
- adeiladu pont droed newydd wedi ei chysylltu i'r bont restredig gradd 2 bresennol.
- adeiladu pont droed newydd ar wahân

Mae'r ymgynghoriad yma yn ceisio eich barn ar:

- faterion diogelwch cerddwyr ar y bont bresennol yn Caersws
- opsiynau i wella cysylltiadau i gerddwyr
- y profion 'arwyddion rheoli traffig' a gynhaliwyd yn mis Mai 2017

**Cynllun Lleoliad**




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2017 Arolwg Ordnans 100023387 - Cyngor Gwynedd

**Cefndir**

Wedi ei leoli ar yr A470, un o'r prif gefnffyrdd sydd yn cysylltu Gogledd a De Cymru, mae pentref Caersws hefyd wedi ei leoli yn gyfagos i Afon Hafren ym Mhowys, tua 5 milltir i'r gorllewin o Drenewydd.  Mae mwyafrif poblogaeth y pentref yn byw i'r gogledd o'r Afon Hafren gyda'r maes hamdden wedi ei leoli i'r de o'r afon.  Bydd rhaid i unrhyw gerddwyr sydd angen mynediad i'r maes hamdden neu gerdded i'r de o Caersws groesi'r bont, sydd yn gul gyda llif traffig dwyffordd.  Ar hyn o bryd nid oes llwybr troed pwrpasol ar gyfer cerddwyr. Mynegwyd pryderon ynglŷn â diogelwch cerddwyr ar Bont Caersws.

**Datblygiad**

Mae sawl opsiwn gwelliant wedi ei ystyried ac Astudiaeth Dichonoldeb wedi ei baratoi.

Darparwyd system CCTV ar y bont rhwng y 31ain o Fawrth a 16eg o Fai 2017 er mwyn mesur hyd y ciwio trafnidiaeth a symudiadau cerddwyr. Dadansoddwyd y data rhwng 7yb a 7yh.

Symudiadau Cerddwyr: Nodwyd bod 15 o gerddwyr ar gyfartaledd yn defnyddio'r bont yn ddyddiol i groesi Afon Hafren. Mae symudiadau cerddwyr ar uchafbwynt o oddeutu 90 y dydd pan fydd digwyddiad yn y maes hamdden neu yn ystod arwerthiant cist car (i'r de o'r bont).

Hyd Ciwio Trafnidiaeth: Mae'r rhan fwyaf o gerbydau yn arafu wrth nesáu at y bont ac yn gallu mynd heibio i'w gilydd yn araf. Bydd rhaid i gerbydau ildio pan fydd cerbydau mawr yn dod dros y bont, gan achosi tagfeydd bychan o oddeutu 2 cerbyd ar yr ochr ogleddol o'r bont, ac oddeutu 2 gerbyd ar yr ochr ddeheuol i'r bont. Mae hyn yn digwydd yn fwy aml yn ystod yr wythnos gwaith gan fod fwy o gerbydau trwm yn defnyddio'r ffordd.

**Treial 'rheoli traffig'**

Un opsiwn a ystyriwyd yn yr astudiaeth dichonoldeb oedd i adeiladu llwybr troed ymroddedig ar y bont a chulhau y ffordd i lôn sengl gyda rheolaeth traffig parhaol.

Er mwyn profi effaith yr opsiwn rheoli traffig ar lif traffig yr A470 'roedd goleuadau traffig dros dro wedi ei rhoi mewn lle bob ochr i'r bont rhwng yr 2ail o Fai a 16eg o Fai 2017.

Hyd Ciw Trafnidiaeth: Ar gyfartaledd roedd y rheolaeth signal traffig yn achosi ciwio traffig o rhwng 3 a 4 o gerbydau i'r gogledd ac i'r de o'r bont yn ystod y dydd. Fodd bynnag, gwelwyd ciw o hyd at 10 - 15 o gerbydau ar adegau yn ystod y treial. Gan fod y rheolaeth traffig yn ei gwneud yn ofynnol i gerbydau stopio, mae'r nifer y digwyddiadau ciwio yn uwch na heb y mesurau reoli traffig.

Rydym yn gofyn am eich barn ar y treial rheoli traffig ac unrhyw opsiynau gwella sydd yn bosibl.